Sut mae'r gylchred ddŵr yn gweithio



1 Anweddu

Mae gwres yr haul yn troi dŵr yn nwy anweledig o'r enw anwedd dŵr sy'n codi i'r awyr.

2 Cyddwyso

Mae cymylau'n cael eu ffurfio pan fydd anwedd dŵr yn oeri ac yn troi nôl yn ddafnau bach, bach o ddŵr.

3 Dyodi

Pan fydd y dafnau bach o ddŵr yn tyfu'n fwy ac yn drymach, maen nhw'n syrthio nôl i'r Ddaear fel glaw, cesair/cenllysg, eirlaw neu eira.

4 Afon

Mae dŵr yn llifo o'r tir i'r môr trwy nentydd ac afonydd ac felly mae'r gylchred ddŵr yn parhau.

5 Trydarthu

Mae planhigion yn cymryd dŵr i mewn trwy eu gwreiddiau ac yn cael gwared â'r dŵr sydd dros ben trwy eu dail.

Oherwydd trefn y gylchred ddŵr, does dim dŵr newydd ar y blaned. Rydyn ni'n yfed yr un dŵr ag yr oedd y deinosoriaid yn ei yfed.